**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Eich cyf/Your ref P-06-1247
Ein cyf/Our ref VG/00068/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28 Ionawr 2022

Annwyl Jack

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr ar 12 Tachwedd, yn gofyn am farn Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

Rwyf yn cydnabod manteision posibl mewn wythnos waith fyrrach ac rydym yn awyddus i weld canlyniad cynlluniau peilot a gynlluniwyd ar gyfer yr Alban ac Iwerddon yn benodol. Bu rhywfaint o ddiddordeb calonogol gan gyflogwyr yng nghynllun peilot Iwerddon, ond ni fydd yn dechrau tan ddechrau 2022. Nid yw union fanylion cynllun peilot yr Alban wedi'u cwblhau eto. Mae ein swyddogion mewn cysylltiad agos â'u cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban ac maent yn trafod y profiad o ddatblygu cynllun peilot mewn cyd-destun datganoledig.

Rydym am ystyried sut y bydd y cynlluniau peilot hyn yn cael eu cyflawni, eu heffaith a'u canlyniadau. Byddwn am iddynt ddarparu tystiolaeth gyson o sut y gall wythnos waith pedwar diwrnod wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ein helpu i leihau allyriadau carbon a chefnogi cydraddoldeb rhywiol, gan hefyd osgoi canlyniadau anfwriadol.

Fel y nodwyd yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog yn ddiweddar, mae rhai busnesau yng Nghymru eisoes wedi mynegi diddordeb mewn wythnos pedwar diwrnod gan eu bod yn credu ei bod yn gwneud synnwyr masnachol i wneud hynny. Byddem yn cefnogi eu bwriad polisi pe baent yn penderfynu gweithredu trefniant o'r fath.

Yn fwy cyffredinol, dim ond un enghraifft o weithio hyblyg yw wythnos waith pedwar diwrnod a thrwy ein dull partneriaeth gymdeithasol, rydym yn awyddus i annog mwy o gyflogwyr i fod yn arloesol wrth ddylunio swyddi er mwyn galluogi gweithwyr i arfer mwy o ddewis ynghylch ble, pryd a sut maent yn gweithio.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.